# Datblygu Rhyngwladol

**Llinell Gyntaf**
Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymo i gynnal ei harweinyddiaeth fyd-eang ar anabledd a pharhau i eiriol dros ddatblygu cynaliadwy sy'n cynnwys anabledd.

Ar 16 Mehefin 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bwriad i uno'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad er mwyn sefydlu'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO). Mae'n hollbwysig fod y Swyddfa newydd yn parhau i leisio dros gynnwys pobl anabl yn ei gwaith, fel na chaiff neb eu gadael ar ôl yn ymrwymiadau, uchelgeisiau a gweithredoedd y gwledydd hyn i symud tuag at ddatblygu cynaliadwy.

**Prif Ofynion**
Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i ymgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau:

- Bod y DU yn parhau i gyflawni ei gyfrifoldeb cyfreithiol i neilltuo 0.7 y cant o GDG ar gyfer cymorth rhyngwladol.
- Bod y DU yn cynnal yr ymrwymiad yn Strategaeth Cynnwys Anabledd 2018-2023 yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol y bydd pobl ag anableddau yn parhau'n ganolog i weithgarwch yr adran.
- Bod y DU yn cynnal ei ymrwymiad cryf i sicrhau addysg gynhwysol o ansawdd, a chynnal ac ehangu ymrwymiadau presennol mewn rhaglenni addysg gynhwysol (megis rhaglen Her-Pontio Addysg Merched) er mwyn gwella mynediad i addysg a deilliannau dysgu i bobl ag anableddau.
- Bod y DU yn cynnal yr ymrwymiad i sicrhau cyfleoedd cyfartal i gael swyddi derbyniol i bawb mewn gwledydd incwm isel a chanolig, a chydnabod fod y bobl sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf, gan gynnwys pobl anabl, angen cymorth arbennig i gael a chadw cyflogaeth ystyrlon.

**Ystadegau**

- Mae mwy na biliwn o bobl drwy'r byd yn byw gyda rhyw fath o anabledd. Mae hyn yn cynrychioli tua 15 y cant o boblogaeth y byd. Disgwylir i'r nifer hwnnw ddyblu i 2 biliwn erbyn 2050.
- Mae menywod yn fwy tebygol o brofi anabledd na dynion, a phobl hŷn yn fwy felly na phobl ifanc. Mae gan wledydd incwm isel a chanolig lefelau uwch o anabledd na gwledydd incwm uchel, ac mae effaith anabledd ar bobl mewn ardaloedd tlotach yn cael ei waethygu gan faterion hygyrchedd a diffyg gwasanaethau gofal iechyd.
- Mae poblogaeth pobl ifanc wedi cyrraedd lefelau digynsail. Mae amcangyfrifon yn awgrymu fod rhwng 180 a 220 miliwn o bobl ifanc ag anableddau ledled y byd. Mae bron i 80 y cant ohonynt yn byw mewn gwledydd incwm isel a chanolig.

[1] https://www.gov.uk/government/news/prime-minister-announces-merger-of-department-for-international-development-and-foreign-office

**Cyd-destun**
Hyd at 2015, roedd pobl ag anableddau'n aml yn cael eu gadael allan o raglenni datblygu rhyngwladol. Newidiodd hyn wedi llofnodi Agenda Datblygu Cynaliadwy 2030 a'i 17 Nod Datblygu Cynaliadwy. Rhoddodd yr agenda byd-eang newydd hwn bobl ag anableddau ynghanol ymdrechion i sicrhau datblygu cymdeithasol ac economaidd, trwy ymrwymo i 'Adael Neb Ar Ôl'. Chwaraeodd Llywodraeth y DU rôl allweddol yn sicrhau'r ymrwymiad hwn i adael neb ar ôl, ac ers hynny bu'n eiriolydd byd-eang dros hawliau pobl ag anableddau. Bu'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol yn hollbwysig wrth hyrwyddo arweinyddiaeth fyd-eang y DU ar y mater hwn, ac arweiniodd y ffordd trwy ddatblygu ei Strategaeth Cynnwys Anabledd, ei safonau isaf-derbyniol ar gyfer cynnwys anabledd a'i ymrwymiad i ddefnyddio marciwr anabledd yr OECD-DAC sy'n olrhain faint o Gymorth Datblygu Swyddogol a ddyrannwyd i ddatblygu cynnwys anabledd. Heb yr arweinyddiaeth a ddangoswyd gan y DU, a'r DFID yn benodol, ar y mater hwn, byddai miloedd o bobl ag anableddau yn rhai o'r gwledydd tlotaf yn parhau i ddioddef tlodi.

**Gwybodaeth Gefndir**

Cynnal arweinyddiaeth fyd-eang y DU ar anabledd
Bu'r DU, trwy ei rhaglenni datblygu rhyngwladol, yn arweinydd ac eiriolydd byd-eang dros hawliau pobl ag anableddau mewn gwledydd incwm isel a chanolig, gan arwain y ffordd i sicrhau nad ydynt yn cael eu gadael ar ôl, fel y gwelwyd pan groesawodd y DU yr Uwchgynhadledd Anabledd Fyd-eang gyntaf yn 2018.

O fewn Llywodraeth y DU, dangosodd yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol (DFID) arweinyddiaeth gref yn cefnogi cynnwys anabledd. Cyflawnwyd hynny trwy nifer o gamau gwahanol, megis cyhoeddi Strategaeth Cynnwys Anabledd 2018 i warantu fod anabledd yn ganolog i bopeth a wna a thrwy sicrhau bod cymorth y DU yn cefnogi cyflawni confensiynau hawliau dynol allweddol megis Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD).

Hefyd, mae ymrwymiad y DFID i egwyddor y Nodau Datblygu Cynaliadwy o adael neb ar ôl wedi bod yn arbennig o bwysig yn sicrhau bod cymorth y DU yn cyrraedd pobl, megis pobl ag anableddau, a allai fel arall fod wedi cael eu hanghofio gan raglenni cymorth datblygu. Gall cymorth cynnwys anabledd greu argraff newid bywydau ar gyfer pobl ag anableddau - y llynedd cefnogodd ein rhaglenni ni fwy na 5000 o blant ag anableddau yn Affrica i gael addysg, a thros 30,000 o bobl ar draws Affrica ac Asia i chwilio am waith.
Wedi creu'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) newydd, mae'n hollbwysig fod y DU yn parhau i chwarae ei rôl yn arwain a gosod yr agenda ymhlith actorion datblygu rhyngwladol byd-eang ac yn cynnal ei ymrwymiad i amddiffyn y grwpiau mwyaf difreintiedig a than anfantais yn y byd. Mae'r Strategaeth Anabledd Genedlaethol y bydd y llywodraeth yn ei chyhoeddi cyn bo hir yn cynnig cyfle i'r DU ail-ddatgan ei hymrwymiad i gynnwys anabledd, yng ngwledydd Prydain ac yn rhyngwladol.

Mae'n hollbwysig fod y Swyddfa newydd yn parhau i leisio dros gynnwys pobl anabl yn ei gwaith, fel na chaiff neb eu gadael ar ôl yn ymrwymiadau, uchelgeisiau a gweithredoedd gwledydd incwm isel a chanolig i symud tuag at ddatblygu cynaliadwy.

**Atebolrwydd ac ansawdd Cymorth Datblygu Swyddogol (ODA)**

Tryloywder
Yn ogystal â bod yn arweinydd bydeang ar gynnwys anabledd, mae Llywodraeth y DU, trwy arweinyddiaeth y DFID, wedi chwarae rôl allweddol yn sicrhau y defnyddir ODA yn y ffyrdd mwyaf effeithiol, ei fod yn cynnig gwerth da am arian, y caiff ei ddarparu'n dryloyw ac y caiff effeithiau cadarnhaol a pharhaol ar fywydau rhai o'r bobl dlotaf yn y byd.

Mae tryloywder yn sicrhau y gall trethdalwyr y DU weld fod cymorth yn cael ei wario

lle y mae fwyaf ei angen, trwy raglenni effeithiol ac effeithlon sy'n cynnig gwerth da am bob punt a werir. Mae tryloywder hefyd yn galluogi adrannau sy'n gwario arian cymorth i ddysgu o'r rhaglenni datblygu gorau a buddsoddi ynddynt, sy'n arbennig o bwysig ar hyn o bryd wrth i effaith economaidd Covid-19 ddechrau cael ei theimlo yng ngwledydd Prydain ac yn rhyngwladol.

Bu DFID yn arwain y ffordd yn sicrhau bod gwariant ODA y DU yn dryloyw ac atebol i bobl y DU. Gan adeiladu ar ei Agenda Tryloywder 2018, barnodd Mynegai Tryloywder Cymorth 2020 a gyhoeddwyd yn ddiweddar yr adran yn "*Dda Iawn*". Ar y llaw arall, barnwyd y Swyddfa Dramor ymhlith y mwyaf negyddol, sef "*Teg*". Ar hyn o bryd caiff 75 y cant o gymorth y DU ei ddosbarthu trwy DFID. Mae'n hollbwysig, wrth i DFID a'r FCO uno, y cedwir arbenigedd DFID ar dryloywder cymorth yn yr FCDO ac y'i defnyddir i gynyddu tryloywder ac atebolrwydd holl adrannau'r llywodraeth sydd â chyfrifoldeb am ODA.

**Atebolrwydd Cyhoeddus a Seneddol**

Mae'n hollbwysig fod holl wariant ODA y DU yn parhau'n atebol i drethdalwyr Prydain ac i'r sawl y mae'n ceisio eu cynorthwyo. Mae craffu seneddol ac annibynnol o'r gyllideb gymorth yn allweddol er mwyn sicrhau bod pob punt a werir yn creu argraff. Mae'r Comisiwn Annibynnol ar Effaith Cymorth (ICAI), a grëwyd gan lywodraeth Geidwadol, yn offeryn hollbwysig ar gyfer sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr Prydain, ac rydym yn argymell fod y llywodraeth yn amddiffyn a chryfhau ei allu i asesu effeithiolrwydd arian cymorth.

Hefyd, mae'r Pwyllgor Datblygu Rhyngwladol (IDC) yn chwarae rôl allweddol yn craffu ar wariant ODA llywodraeth y DU – gan sicrhau bod arian trethdalwyr yn cael ei wario lle y mae fwyaf ei angen. Pe bai'r IDC yn cael ei ddiddymu, rhaid sefydlu Pwyllgor Dethol traws-lywodraethol newydd i fod yn gyfrifol am archwilio'r holl wariant cymorth ar draws Whitehall er mwyn sicrhau craffu digonol ac atebolrwydd o ran gwariant cymorth.